Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Strategaeth Dysgu ac Addysgu

## 2019-2024

## Cyflwyniad

Rydym yn cydnabod bod heriau byd-eang sylweddol i genedlaethau'r dyfodol. Yn sail i'n datblygiadau arfaethedig ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu dros y ddwy i bum mlynedd i ddod yw ein hymrwymiadau canmlwyddiant, nodweddion Graddedig Abertawe ynghyd â gwelliannau i'r cwricwlwm i gyflawni'r rhain a chefnogi ein holl fyfyrwyr. Wrth wraidd y gwelliannau hyn a chyflawni addysgu o safon yw ein staff a'n myfyrwyr. Rydym yn parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth, gan sicrhau ein bod yn darparu'r profiad gorau oll i bawb er mwyn iddynt wynebu dyfodol ansicr yn hyderus.

## Ymrwymiadau'r Canmlwyddiant

1. Byddwn yn darparu addysgu ysbrydoledig a gwell sy'n seiliedig ar ymchwil o'r radd flaenaf ac ymarfer proffesiynol
2. Byddwn yn cynyddu cyfranogiad gan fyfyrwyr o grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir, ac yn darparu cymorth o'r ansawdd angenrheidiol i'w galluogi i lwyddo
3. Byddwn yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein myfyrwyr fel partneriaid
4. Byddwn yn creu amgylchedd dysgu cefnogol sy'n cyfoethogi profiad ein holl fyfyrwyr
5. Byddwn yn darparu cyfleoedd cyffrous i fyfyrwyr wella eu sgiliau, eu gwybodaeth am y byd a'u hystwythder diwylliannol
6. Byddwn yn cefnogi ein myfyrwyr i gyflawni'r canlyniadau uchaf yn eu bywydau posib, academaidd a phroffesiynol

## Graddedig Abertawe

- Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn addysgu ac asesu o'r safon orau bosib, gan eu galluogi i feithrin gwybodaeth helaeth yn eu disgyblaeth o ddewis
- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr feithrin y sgiliau trosglwyddadwy y bydd eu hangen arnynt yn eu gyrfaoedd
- Byddwn yn rhoi'r profiad angenrheidiol i'n myfyrwyr i sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus
- Byddwn yn galluogi ein myfyrwyr i ddatblygu meddylfryd twf - gan sicrhau eu bod yn gadarnhaol, yn gallu ymaddasu, a'u bod yn barod ar gyfer unrhyw sefyllfa y gallent ei hwynebu ar ôl iddynt raddio

Bydd graddedigion Prifysgol Abertawe yn wydn, yn hyderus, yn gallu gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr, bydd ganddynt y gallu **iwerthuso'n feirniadol eu safbwyntiau personol a safbwyntiau eraill**, byddant yn llunio'r ffordd ymlaen **yn greadigol a** byddant yn fedrus wrth wneud i bethau ddigwydd

## Y Cwricwlwm

Er mwyn cyflawni hyn i Raddedigion Abertawe ar bob rhaglen ym Mhrifysgol Abertawe, byddwn yn gwreiddio'r nodweddion canlynol:

- **Dysgu ac Addysgu Cynhwysol** – mabwysiadu safbwynt yr unigolyn a gwahaniaethau rhwng unigolion fel ffynhonnell amrywiaeth sy'n cyfoethogi ein cymdeithas, gan gydnabod anghenion unigol a helpu'r gymuned ehangach o fyfyrwyr i ddatgelu ac ymchwilio i faterion braint a rhagfarn
- **Asesu ac adborth** – Gwella effeithiolrwydd y dulliau asesu ac adborth i staff a myfyrwyr, a lleihau'r baich cyffredinol sy'n gysylltiedig ag asesu
- **Dysgu ar sail ymchwil ac ymarfer** – integreiddio myfyrwyr yn y gymuned ymchwil ac ymarfer a'u hysbrydoli gyda chyfleoedd ymchwil ac ymarfer 'gweithio go iawn'
- **Darpariaeth dysgu â chymorth technoleg** – cefnogi dulliau darparu amgen a hyrwyddo diwylliant digidol
- **Datblygiad proffesiynol ac academaidd i fyfyrwyr** – gwreiddio sgiliau academaidd, personol a phroffesiynol yn y cwricwlwm a fydd yn helpu ein myfyrwyr i wneud effaith ym myd busnes, sefydliadau a diwydiant
- **Cyfleoedd myfyrwyr** – Cynyddu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr astudio dramor, neu gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli neu leoliadau gwaith yn y DU

## Cymorth i fyfyrwyr

Bydd Prifysgol Abertawe yn galluogi mynediad at gymorth, gan sicrhau bod gan yr holl ddarpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a'r rhai hynny sy'n graddio, ni waeth eu cefndiroedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol-economaidd a/neu nodweddion gwarchodedig, y cyfle a'r cymorth i wneud cynnydd a llwyddo. Byddwn yn llwyddo i wneud hyn drwy strategaethau penodol:

**Mynediad** – galluogi unigolion o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i gyrchu addysg uwch

**Cadw myfyrwyr** – cefnogi myfyrwyr i barhau i astudio a chwblhau eu rhaglenni o astudiaethau

**Dilyniant** – Gweithgareddau i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y cymorth academaidd a bugeiliol i symud o lefel i lefel

**Llwyddiant** – darparu'r cyfleoedd i bob myfyriwr ennill y radd orau a chael y canlyniadau cyflogaeth gorau y gallant

## Gwerthfawrogi Addysgu

Yn ogystal â'r uchod, yn sail i'r strategaeth hon fydd cynlluniau penodol i wella ansawdd ein gweithlu academaidd, gan gynnwys drwy gynllunio gweithlu digonol, cymorth priodol, gweithgareddau DPP a gwobrwyo a chydnabod mewnol ac allanol.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Byddwn yn mesur llwyddiant y strategaeth hon drwy gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u gwreiddio yn, er na fyddant yn gyfyngedig i, y mesurau sy'n ofynnol ar gyfer TEF (NSS, cyfraddau Parhau a Chyflogadwyedd).

## Dirprwy Is-ganghellor a Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Drwy berthynas weithio gref, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn ceisio parhau i flaenoriaethu Llais y Myfyrwyr er mwyn sicrhau'r profiad gorau posib i fyfyrwyr. Mae system sefydledig o gynrychiolwyr gyda mwy na 350 o aelodau'n gweithredu fel pont rhwng myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae'r cynrychiolwyr etholedig ar gyfer pob cwrs wedi'u harfogi â'r sgiliau addas i sicrhau eu bod nhw a'u cyfoedion yn ffynnu yn eu hamgylchedd addysgu gorau posib.

Ein gweledigaeth ni yw bod yn sefydliad addysg uwch o ddewis yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang i fyfyrwyr, a chael ein cydnabod am ein hymagwedd broffesiynol, personol sy'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn dysgu, addysgu ac asesu. Ar y cyd, byddwn yn grymuso ein myfyrwyr a'n staff i wella eu profiadau dysgu ac addysgu drwy ddatblygu systemau a phrosesau o safon, sy'n gydweithredol ac yn hawdd i'w defnyddio i wella cefnogi profiad myfyrwyr.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth fel y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gan gydweithio ar fentrau pellach er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i dderbyn y cymorth sy'n eu paratoi'n effeithiol at y dyfodol.

## Amcan 1

### Amcan cyffredinol

Bydd myfyrwyr yn elwa o ddysgu personol, hyblyg a chynhwysol gyda chymorth gan gymunedau dysgu.

### Rhesymeg

Byddwn yn parhau i ddatblygu amgylchedd sy'n galluogi myfyrwyr i ddysgu a thyfu, teimlo'n rhan o gymuned, teimlo ymdeimlad o berthyn a datblygu cyfalaf cymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi ein myfyrwyr i elwa o gymorth sy'n berthnasol i'w hanghenion i'w helpu i wneud cynnydd wrth ddysgu a datblygu eu sgiliau academaidd a throsglwyddadwy, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu hyder a gwydnwch. Bydd cymryd cyfrifoldeb dros eu profiad dysgu yn grymuso myfyrwyr ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd wedi'r Brifysgol.

### Erbyn 2021, byddwn wedi

- gwella ac integreiddio sgiliau astudio i bob myfyriwr
- gwella a chefnogi dysgu ar y cyd a chyfleoedd mentora i bob myfyriwr
- Cefnogi pob myfyriwr wrth bontio i addysg uwch

### Erbyn 2024, byddwn wedi

- annog pob myfyriwr i gymryd cyfrifoldeb dros eu taith ddysgu
- gwreiddio dysgu hyblyg, o bell a chyfunedig, i gefnogi pob myfyriwr
- darparu dulliau a hyfforddiant addas i gefnogi myfyrwyr ym mhob agwedd ar eu taith ddysgu

## Amcan 2

### Amcan cyffredinol

Caiff chwe dimensiwn Cwricwlwm y Canmlwyddiant eu gwreiddio i'r safon orau bosib ym mhob rhaglen i ddatblygu Graddedigion Abertawe.

### Rhesymeg

Mae ein hanghenion addysgu yn diwallu anghenion myfyrwyr, y gymdeithas a chyflogwyr. Mae meddwl beirniadol, natur greadigol, cyfathrebu a chydweithio oll yn allweddol i lwyddiant a gydnabyddir ac a werthfawrogir gan gyflogwyr. Mae angen i'n dulliau dysgu, addysgu ac asesu adlewyrchu'r rhain. Bydd ein cwricwlwm yn darparu'r dulliau i'n myfyrwyr oresgyn heriau'r dyfodol, gan eu paratoi ar gyfer gyrfaoedd cymysg a gofynion sgiliau a gwybodaeth sy'n newid yn gyflym.

### Erbyn 2021, byddwn wedi

- gwreiddio asesu priodol ac adborth o safon yn y cwricwlwm
- cynnwys cyfleoedd i ddathlu cynwysoldeb ac amrywiaeth yn ein cwricwlwm
- llunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu'r rhaglen

### Erbyn 2024, byddwn wedi

- gwella ein holl raglenni i sicrhau eu bod wedi gwreiddio chwe dimensiwn Cwricwlwm y Canmlwyddiant
- gwreiddio cynwysoldeb ac amrywiaeth ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm fel pynciau craidd y dylai pob myfyriwr ymwneud â nhw'n rhagweithiol

- cynnig cyfleoedd i bob myfyriwr ar gyfer lleoliad yn y DU a/neu dramor

## Amcan 3

### Amcan cyffredinol

Caiff ein cymuned addysgu ei grymuso i gyflwyno addysgu ac asesu o safon a bydd yn cael ei chydnabod a'i gwobrwyo am wneud hynny.o.

### Rhesymeg

Mae staff sy'n rhan o bob agwedd ar addysgu yn gyfrifol am wella ansawdd ac arloesedd addysgu. Mae meddu ar gymuned addysgu gymwys, sy'n cael ei gwobrwyo a'i chefnogi, yn hanfodol ar gyfer ansawdd dysgu ac addysgu.

### Erbyn 2021, byddwn wedi

- sicrhau bod ansawdd addysgu'n cael ei ystyried yn llawn wrth reoli staff presennol ac wrth benodi a datblygu staff newydd
- sicrhau bod strwythur ar gyfer rhannu a rhaeadru arfer gorau o ran dysgu ac addysgu ymhlith staff
- sicrhau bod pob aelod newydd o staff â chyfrifoldebau addysgu yn cymryd rhan mewn portffolio o hyfforddiant ymarferol, seiliedig ar sgiliau o ran dysgu, addysgu ac asesu

### Erbyn 2024, byddwn wedi

- gwreiddio cymorth o safon i staff wrth iddynt weithio tuag at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch (HEA)
- sicrhau bod ymarfer dysgu ac addysgu wedi'u seilio ar dystiolaeth ymchwil orau, gyda chymorth i ymchwil addysgol fewnol
- cefnogi pob aelod o staff i ddatblygu ei broffil a'i ymarfer fel athro ardderchog

## Amcan 4

### Amcan cyffredinol

Representatives of students, alumni, employers and service users will engage and contribute to the development in learning, teaching and assessment.

### Rhesymeg

Bydd gwella sut rydym yn ymwneud â'n holl randdeiliaid yn mwyafu'r cyfleoedd ar gyfer partneriaeth a chyd-greu, gan wella rôl ddinesig y Brifysgol a gwerth profiad dysgu myfyrwyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n myfyrwyr i ddarparu'r profiad gorau iddynt, gan gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i fyfyrwyr.

### Erbyn 2021, byddwn wedi

- cadarnhau ein perthnasoedd presennol â rhanddeiliaid ac wedi nodi'r mecanweithiau ar gyfer datblygu ac integreiddio perthnasoedd cynaliadwy â rhanddeiliaid
- rhannu arfer gorau pan fydd perthnasoedd gweithio effeithiol eisoes wedi'u sefydlu
- sefydlu cymorth parhaus i gynrychiolwyr myfyrwyr

### Erbyn 2024, byddwn wedi

- sefydlu cronfa ddata sy'n cynnwys manylion gweithgareddau rhanddeiliaid yr holl Brifysgol, a chynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid er budd pawb
- mwyafu'r cyfleoedd a ddarperir gan ein perthnasoedd â rhanddeiliaid i gefnogi blaenoriaethau'r Brifysgol
- Datblygu cyfleoedd i fwyafu gwaith creadigol ar y cyd ymhlith myfyrwyr wrth ddysgu, addysgu ac asesu

## Amcan 5

### Amcan cyffredinol

Meithrin ein hamgylchedd dysgu i alluogi ein cymunedau o ddysgwyr i ffynnu.

### Rhesymeg

Byddwn yn parhau i gefnogi ein myfyrwyr i ddysgu'n dda drwy gynnig amgylcheddau ffisegol a digidol sy'n adlewyrchu'r ffordd maent yn dysgu. Byddwn yn adolygu ac yn moderneiddio ein dulliau addysgu'n rheolaidd ac yn ein herio ein hunain. Drwy weithio gyda myfyrwyr i ddatblygu amgylcheddau dysgu, byddwn yn sicrhau eu bod yn gyfoes a'u bod yn cynnig dewis i fyfyrwyr a staff o ran ffyrdd o gyflwyno ac asesu.

### Erbyn 2021, byddwn wedi

- cyflwyno systemau a phrosesau effeithiol, cywir a chyd-gysylltiedig mewn perthynas â dysgu ac addysgu sy'n addas at y diben
- datblygu safonau amgylcheddau dysgu sy'n datblygu'n barhaus yn unol â'r angen i sicrhau bod amgylcheddau dysgu deinamig yn gyfoes
- sicrhau bod adnoddau a rhestrau darllen ar gael yn 100% o'n modiwlau a addysgir

### Erbyn 2024, byddwn wedi

- sicrhau bod gennym leoedd ffisegol a rhithwir o safon sy'n cynnig dewis i staff addysgu
- cynnig lleoedd profi a hyfforddi/lleoedd ymchwil Ymchwil a Datblygu
- cefnogi ein cymunedau i ffynnu mewn byd digidol

## Amcan 6

### Amcan cyffredinol

Bydd ein systemau a'n prosesau data academaidd yn cefnogi staff a myfyrwyr wrth gyflwyno rhagoriaeth dysgu, addysgu ac asesu.

### Rhesymeg

Bydd systemau a phrosesau cydnaws a hyblyg, yn ogystal â ffynonellau o ddata academaidd a reolir yn dda, yn grymuso staff a myfyrwyr. Mae gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn hanfodol ar gyfer dysgu ac addysgu rhagorol.

### Erbyn 2021, byddwn wedi

- mapio ein ffynonellau data, ein systemau a'n prosesau er mwyn blaenoriaethu a sicrhau meysydd buddsoddi a'r adnoddau y mae eu hangen
- mireinio a sicrhau adnoddau i systemau a phrosesau ansawdd i fwyafu cyfranogiad ac effeithiolrwydd staff
- grymuso staff a myfyrwyr i ddefnyddio'r systemau yn effeithiol

### Erbyn 2024, byddwn wedi

- galluogi staff a myfyrwyr i ddefnyddio arfer gorau'r sector i lywio ein prosesau
- gwreiddio prosesau gwella ansawdd ar draws y Brifysgol
- Sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr yn defnyddio'r data a dadansoddeg i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau